| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 15fed Mai 2018 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd Brian Jones /Angela Loftus |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Angela Loftus – Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai |
| **Teitl:** | Cytundeb Cyflenwi Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych: cymeradwyo'r diwygiadau i'r amserlen arfaethedig i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariad o'r sefyllfa bresennol o ran datblygiad Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd Sir Ddinbych a gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cyngor ar 5ed Rhagfyr 2017, cyflwynwyd Adroddiad Adolygu'r CDLl a'r Cytundeb Cyflenwi CDLl Newydd yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru ar 13eg Rhagfyr. Yn dilyn hyn, derbyniwyd gohebiaeth gan Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, yn gwahodd Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) i baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar y cyd. Roedd yr ymateb ar y cyd a dderbyniwyd gan y ddau Gyngor yn datgan y byddai'n well ganddynt gynhyrchu CDLl unigol.

1.2 Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi cadarnhau'n ddiweddar y gall y ddau Gyngor fwrw ymlaen yn awr â'u hadolygiadau o'u CDLl ar sail unigol (derbyniwyd 29ain Mawrth 2018 ac sydd wedi'i atodi yn Atodiad 1).

1.3 Yn anffodus, mae'r broses hon wedi arwain at oedi i'r amserlen ar gyfer cynhyrchu CDLl newydd, sy'n ffurfio rhan o'r Cytundeb Cyflenwi a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros greu'r adroddiad hwn?

Ceisio cymeradwyaeth i'r diwygiadau i'r amserlen ar gyfer cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych. Mae'r amserlen yn ffurfio rhan o'r Cytundeb Cyflenwi a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Cyngor ac a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2017. Mae angen gwneud y diwygiadau yn dilyn ymateb ac ymyrraeth ddilynol Llywodraeth Cymru, a dyma pryd digwyddodd yr oedi. Mae'r adroddiad hefyd yn ceisio awdurdod dirprwyedig ar gyfer Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy, mewn ymgynghoriad â Phennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, er mwyn cytuno ar unrhyw ddiwygiadau sydd eu hangen i'r Cytundeb Cyflenwi yn y dyfodol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn cymeradwyo amserlen Cytundeb Cyflenwi Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych, fel y'i diwygiwyd, i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru (wedi'i atodi yn Atodiad 2).

3.2 Bod y Cyngor yn awdurdodi'r Aelod Arweiniol ar gyfer Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, i gytuno ar unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i Gytundeb Cyflenwi Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych yn y dyfodol.

3.3 Mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Lesiant (Atodiad 3) fel rhan o'i ystyriaethau.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae CDLl cyfredol yn rhan sylfaenol o'r system sy'n cael ei harwain gan y cynllun, yn unol ag Adran 69 Deddf 2004, mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol gynnal adolygiad o'u CDLl o fewn y pedair blynedd ar ôl ei fabwysiadu. Cam cyntaf y broses adolygu yw paratoi ac ymgynghori ar Adroddiad Adolygu'r CDLl. Roedd Adroddiad Adolygu CDLl Sir Ddinbych yn datgan bod angen CDLl Newydd. Paratowyd Cytundeb Cyflenwi drafft ar gyfer Cynllun Newydd Sir Ddinbych a oedd yn nodi'r amserlen arfaethedig ar gyfer cynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd a'r Cynllun Cynnwys y Gymuned, sy'n rhoi amlinelliad o'r dull ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned. Bu'r Adroddiad Adolygu a'r Cytundeb Cyflenwi drafft yn destun ymgynghoriad, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 5ed Rhagfyr 2017 ac a gyflwynwyd wedi hynny i Lywodraeth Cymru ar 13eg Rhagfyr 2017.

4.2 Ar ôl eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru, fe ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet at Gyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gwahodd ymateb cadarnhaol i'w gwahoddiad i gyflwyno cynigion ar gyfer cynhyrchu CDLl ar y cyd erbyn 28ain Chwefror 2018. Roedd y llythyr yn datgan na fyddai cynhyrchu CDLl ar y cyd yn effeithio ar yr amser paratoi, byddai'n gwella arbedion, cynyddu capasiti/gwydnwch staff a sicrhau cysylltiadau i baratoi Cynllun Datblygu Strategol (CDS). Roedd Llywodraeth Cymru yn mynnu hefyd bod angen atal unrhyw waith ar y CDLl newydd i Sir Ddinbych nes y rhoddwyd ystyriaeth o ddifrif i'w hawgrym i gynhyrchu CDLl ar y Cyd. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi gwneud cais tebyg i 11 awdurdod arall.

4.3 Cynhaliwyd cyfarfodydd ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ddinbych, CBSC a Llywodraeth Cymru a chymeradwywyd ymateb ar y cyd i Lywodraeth Cymru yn unol â phroses y Cyngor ar gyfer gwneud penderfyniadau brys, fel y'i nodir yn ei Gyfansoddiad ac mewn ymgynghoriad ag Aelodau'r Cabinet, ar ôl gohirio Cabinet oherwydd cyflyrau tywydd anffafriol. Roedd yr ymateb a anfonwyd at Ysgrifennydd y Cabinet yn awgrymu y dylai Cyngor Sir Ddinbych a CBSC gynhyrchu CDLl ar wahân ond y dylent gydweithio mwy

ar sylfaen dystiolaeth ar y cyd pan fyddai'n bosibl a datblygu strategaethau cyflenwol. Cynigiwyd y byddai hyn yn darparu ffordd ymlaen cadarnhaol ac yn sicrhau na fyddai effaith ar amseriad y CDLl newydd.

4.4 Mae gohebiaeth ddilynol gan Ysgrifennydd y Cabinet wedi cadarnhau y gall Awdurdodau Lleol fwrw ymlaen yn awr â'r rownd hon o adolygiadau CDLl ar sail unigol (derbyniwyd 29ain Mawrth 2018 ac wedi'i atodi yn Atodiad 1). Wrth symud ymlaen, bydd Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio (drwy'r broses Archwilio) yn edrych am dystiolaeth o gydweithio gwell a bydd swyddogion yn sicrhau eu bod yn manteisio ar gyfleoedd gwell i gydweithio. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi gofyn i gael derbyn y Cytundebau Cyflenwi o fewn 3 mis o ddyddiad y llythyr ac mae'n disgwyl i'r Trefniadau Cyflenwi ddangos y gellir cyflawni gwaith o baratoi'r cynllun o fewn 3.5 mlynedd o ddechrau ffurfiol y broses. Mae'r broses o baratoi'r cynllun yn dechrau'n ffurfiol ar ôl i Lywodraeth Cymru gymeradwyo Cytundeb Cyflenwi'r Cyngor, ac mae hyn wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.

4.5 Mae'r ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru wedi arwain at oedi o tua 6 mis i'r gwaith ar y CDLl newydd, ac mae angen adlewyrchu hynny yn yr amserlen ar gyfer y CDLl newydd. Felly, mae angen diwygio amserlen y Cytundeb Cyflenwi yr oedd y Cyngor wedi cytuno arno'n flaenorol ac a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2017. Mae amserlen ddiwygiedig ddrafft wedi'i hatodi yn Atodiad 2, gyda'r newidiadau arfaethedig wedi'u hamlygu. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori nad oes angen diwygio gweddill y Cytundeb Cyflenwi na'r Adroddiad Adolygu a gyflwynwyd yn flaenorol. Mae'r amserlen ddiwygiedig ddrafft yn dangos y gellir cyflawni'r gwaith o gynllunio'r cynllun o fewn 3.5 mlynedd ar ôl dechrau ffurfiol y broses, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru a nodir yn llythyr Ysgrifennydd y Cabinet ond rhagwelir na fydd yn bosibl mabwysiadu'r CDLl Newydd o bosibl, cyn i'r CDLl presennol ddod i ben, o ganlyniad i'r oedi hwn.

4.6 Gall y gwaith ffurfiol ar y CDLl Newydd ddechrau cyn gynted ag y bydd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r Cytundeb Cyflenwi. Bydd yr amserlen a'r cynnydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd a bydd y Grŵp Cynllunio Strategol yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gyflenwi'r CDLl Newydd a hyrwyddo'r CDLl Newydd drwy'r broses o'i ddatblygu.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Y Blaenoriaethau Corfforaethol perthnasol yw:

- Mae pawb yn cael eu cefnogi mewn cartrefi sy'n cyflawni eu hanghenion
- Mae cymunedau wedi'u cysylltu ac mae ganddynt fynediad at wasanaethau a nwyddau yn lleol, ar-lein neu drwy gysylltiadau trafnidiaeth da
- Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i feithrin annibyniaeth a gwydnwch
- Mae'r amgylchedd yn ddeniadol ac yn cael ei ddiogelu, gan gefnogi llesiant a ffyniant economaidd

- Mae pobl iau yn awyddus i fyw a gweithio yma ac mae ganddynt y sgiliau i wneud hynny.

**6. Beth fydd y gost a sut bydd yn effeithio ar wasanaethu eraill?**

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth i gyflwyno amserlen ddiwygiedig Cytundeb Cyflenwi'r CDLl Newydd a bydd y costau ar gyfer hyn yn cael eu talu o gyllidebau presennol. Bydd y costau o gynnal yr Adolygiad a chynhyrchu CDLl newydd yn cael eu hasesu yn fanwl yn y misoedd nesaf. Mae cyllideb ar gyfer yr adolygiad wedi cronni'n flynyddol a bydd ar gael ar gyfer y gwaith hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Lesiant?**

Bydd Asesiad o'r Effaith ar Lesiant parhaus yn hysbysu datblygiad y CDLl newydd, ynghyd â'r Gwerthusiad o Gynaliadwyedd. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Lesiant ar gynnwys y Cytundeb Cyflenwi drafft ac mae ei gasgliadau yn niwtral neu'n gadarnhaol ar y cyfan. Mae'r Cytundeb Cyflenwi drafft yn nodi amserlen ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori a hefyd sut y bydd hyn yn digwydd. Bydd nifer o'r canlyniadau yn ddibynnol ar natur y deunydd yr ymgynghorwyd arno ond mae'r Cytundeb Cyflenwi drafft yn ceisio sicrhau y gall pawb leisio barn ac y byddant yn derbyn ymateb.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r pwyllgor Craffu ac eraill?**

Cafwyd trafodaethau gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Llywodraeth Cymru a chynhaliwyd cyfarfod ar y cyd ar 2il Chwefror 2018.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol**

Cynhelir asesiad manwl o'r costau o gynnal yr Adolygiad a chynhyrchu CDLl newydd yn y misoedd nesaf. Mae'r Cyngor wedi sefydlu cronfa wrth gefn benodol ar gyfer CDLl at y diben hwn ac mae'r gwasanaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd yn gwneud cyfraniad blynyddol o £20,000 i'r gronfa hon. Sefydlwyd y Gronfa wrth Gefn hon yn benodol er mwyn helpu i dalu'r costau sy'n gysylltiedig ag unrhyw adolygiad a CDLl newydd.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r Cytundeb Cyflenwi ar gyfer CDLl Newydd Drafft a gymeradwywyd gan y Cyngor yn Rhagfyr 2017 yn cynnwys asesiad risg manwl. Yn gryno, mae'r prif risgiau a nodwyd yn cynnwys adnoddau staff, newid deddfwriaethau ac oedi o ran polisïau ac amserlenni cenedlaethol sy'n deillio o symiau annisgwyl o uchel o ymatebion i ymgynghoriad neu ddiffyg consensws. Mae Cytundeb Cyflenwi'r CDLl Newydd drafft yn cynnwys hyblygrwydd ar gyfer oedi annisgwyl a bydd gwaith cynllunio prosiect cadarn yn helpu i leihau'r risgiau hyn.

**11. Y Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
Deddf Cynllunio (Cymru) 2015